

DATGANIAD I'R WASG

27 Awst 2019

Glandŵr Cymru'n penodi Steve Thomas, CBE yn gadeirydd newydd

Mae Glandŵr Cymru, elusen dyfrffyrdd a llesiant - Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru - yn falch o gyhoeddi bod Steve Thomas, CBE wedi cael ei benodi'n gadeirydd bwrdd cynghori yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru - Bwrdd Glandŵr Cymru.

Cyn brif weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw Steve, a bu yn y swydd honno am 14 blynedd tan ddiwedd 2018. Datblygodd gysylltiadau cryf ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru pan oedd yn brif weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac felly mae ganddo ddealltwriaeth heb ei ail o Lywodraeth Leol Cymru, ynghyd â gwybodaeth o'r ystod eang o raglenni a pholisïau a fydd yn cael effaith ac yn dylanwadu ar waith yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru. Yn ogystal, mae Steve wedi gweithio'n wirfoddol mewn swyddi sy'n cyd-fynd â gwaith yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, gan gynnwys cadeirio The Prince's Trust - Cymru am bum mlynedd.

Dywedodd Steve Thomas: "Dyma swydd gyffrous ac rwy'n falch o ymgymryd â'r gwaith yn ystod cyfnod mor bwysig i Glandŵr Cymru. Mae camlesi Cymru'n llefydd gwych ac yn cynnwys Safle Treftadaeth y Byd yn Llangollen gydag ysblander Dyfrbont Pontcysyllte, Camlas unigryw Mynwy ac Aberhonddu y byddai'n cerdded ar ei hyd yn aml, a phrosiectau adfer cyffrous ar gamlesi Abertawe a Maldwyn. Mae gan ddyfrffyrdd Cymru rôl bwysig wrth ystyried iechyd a llesiant pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr, am eu bod yn fannau awyr agored glaswyrdd sy'n rhad ac am ddim ac yn hawdd eu cyrraedd. Fy rôl i fydd hyrwyddo'u potensial mawr a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod a'u cefnogi."

Dywedodd Richard Parry, prif weithredwr yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd: "Rwyf wrth fy modd bod Steve yn ymuno â Glandŵr Cymru. Bydd dealltwriaeth drylwyr Steve o'r prif gyfleoedd gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a'r heriau ledled Cymru, yn ogystal â'i gysylltiadau gwerthfawr o fewn y llywodraeth a'r sector gwirfoddol yn gwneud cyfraniad enfawr i'n gwaith yng Nghymru. Bydd profiad Steve yn sicrhau y bydd yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa dda wrth i ni barhau i ddatblygu'n cynlluniau strategol ar gyfer dyfrffyrdd Cymru. Bydd hefyd yn dod â'r manteision o fod ger y dŵr i'r cymunedau gerllaw, y nifer fawr o ymwelwyr sy'n dod i'w mwynhau, yn ogystal ag i'r rheini sy'n defnyddio cychod a defnyddwyr eraill."

Glandŵr Cymru, Toll House, Delamere Terrace, Llundain, W2 6ND

Ffôn: 0203 3204 4514 **E:** press.office@canalrivertrust.org.uk **W:** www.canalrivertrust.org.uk/cymru **Twitter:**

[@CanalRiverTrust](https://twitter.com/CanalRiverTrust)

Noddwr: Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru. Mae Glandŵr Cymru yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant, a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â'r rhif cwmni 7807276 a rhif cofrestru'r elusen 1146792. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig: First Floor North, Station House, 500 Elder Gate, Milton Keynes MK9 1BB

Am ragor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd gan gynnwys sut gallwch wirfoddoli neu roi arian i gefnogi ein gwaith ewch i www.canalrivertrust.org.uk/cymru <<https://canalrivertrust.org.uk/cymru>>.

-DIWEDD-

Am ragor o geisiadau gan y cyfryngau cysylltwch â:

Fran Read, swyddog cenedlaethol y wasg, Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
ffôn 07796 610 427 e-bost fran.read@canalrivertrust.org.uk
<<mailto:fran.read@canalrivertrust.org.uk>>

Nodiadau i olygyddion:

Mae'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn gofalu am 2,000 o filltiroedd o gamlesi ac afonydd ledled Cymru a Lloegr ac yn rhoi bywyd iddynt. Rydyn ni'n credu y gall dyfrffyrdd wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac y gall treulio amser ger y dŵr ein gwneud ni'n iachach a hapusach. Wrth ddod â chymunedau at ei gilydd i wneud gwahaniaeth i'w dyfrffordd lleol, rydyn ni'n creu manau sy'n gallu cael eu defnyddio a'u mwynhau gan bawb, bob dydd.
<<https://canalrivertrust.org.uk/cymru>>

Mae **Bwrdd Glandŵr Cymru** yn cefnogi datblygiad gwaith yr Ymddiriedolaeth drwy ymgysylltu â bywyd cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r bwrdd yn dod â gwybodaeth o Gymru, ei diwylliant, ei phobl, a'i hanghenion i'r Ymddiriedolaeth. Mae'n gweithio ar lefel wleidyddol/llywodraethol a gyda chyrff allweddol eraill yng Nghymru i ddylanwadu ar strategaethau a chynlluniau Cymru mewn perthynas â dyfrffyrdd. Mae hefyd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ar bolisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnig cefnogaeth a chlust i wrando i ymddiriedolwyr, gweithredwyr ac uwch reolwyr ar faterion yng Nghymru.

Mae gan y bwrdd hyd at ddeg aelod, sydd â phrofiad o weithio â sefydliadau partner sy'n bodoli eisoes ac yn cynnwys pobl â chysylltiadau ehangach yng Nghymru gan gynnwys o'r sector cyhoeddus, elusennol a phreifat.